

Cofnodion Fforwm Rheoli Dŵr Cymru

Teitl y Cyfarfod: Fforwm Rheoli Dŵr Cymru

Lleoliad: Rhithwir trwy Skype

Dyddiad y Cyfarfod: 29 Hydref 2020

Aelodau Fforwm Rheoli Dŵr Cymru a oedd yn Bresennol:

Yn Bresennol: Yr Athro Steve Ormerod (CADEIRYDD), Ceri Davies (CNC), Ceri Jones (CNC), Mark Squire (CNC), Rhian Thomas (CNC), Tony Harrington (DCWW), Phil Stone (Canŵ Cymru), Rachel Lewis-Davies (NFU Cymru), Bob Gilchrist (CCGC), Kim Waters (Afonydd Cymru ar ran CAC), Dennis Matheson (TFA Cymru), Eifiona Williams (LIC), Peter Birch (Glandŵr Cymru), Marcus O’Kane (HD)

Ymddiheuriadau: Liz Franks (HD), Sian Williams (CNC), Anthony Geddes (Confor), Luke Davies (WG Marine and Fisheries Division), Aled Jones (UAC), Emyr Williams (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, yn cynrychiol'r tri Pharc Cenedlaethol), Dave Throup (Asiantaeth yr Amgylchedd), Carl Banton (Yr Awdurdod Glo), Jean-Francois Dulong (CLILC), Kristian James (Iechyd Cyhoeddus Cymru), Bethan Evans (Ofwat)

Ysgrifenyddiaeth: Ceri Jones

Noder:

Eitem 1 Agor y cyfarfod

Agorwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd, Yr Athro Steve Ormerod, ac amlinellodd y logisteg ar gyfer cynnal y Fforwm yn y fformat rhithwir newydd hwn. Croesawyd Kim Waters yn gynrychiolydd newydd Afonydd Cymru ar ran Cyswllt Amgylchedd Cymru, a chafwyd teyrnged i'r diweddar Stephen Marsh-Smith am ei waith, a'r cyfraniadau a wnaeth i iechyd ac ansawdd ein hafonydd dros gyfnod hir. Byddai yna golled fawr ar ei ôl.

Eitem 2 Adolygu'r cofnodion a'r cofnod gweithredu

Cadarnhawyd cofnodion a chymau gweithredu'r cyfarfod diwethaf. Nid oedd unrhyw gamau gweithredu wedi cael eu trosglwyddo i'r cyfarfod hwn. Byddai fersiwn derfynol yn cael ei rhoi ar dudalen Fforwm Rheoli Dŵr Cymru ar wefan CNC

<https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/business-sectors/water/wales-water-management-forum/?lang=cy>

Roedd adborth (pwyntiau cywirdeb) wedi dod i law ar eitem y Systemau Draenio Cynaliadwy o'r cyfarfod blaenorol, sef, o safbwynt amaethyddol, nad oedd y Systemau Draenio Cynaliadwy yn gweithio'n effeithiol a bod angen adolygiad ar frys. Roedd yr adolygiad a drefnwyd wedi cael ei ohirio yn dilyn effeithiau Storm Dennis yn gynharach yn y flwyddyn ac oherwydd cyfyngiadau COVID-19 ar y pryd. Roedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu ailafael yn y mater hwn.

CAM GWEITHREDU: RLD i weithio gyda Llywodraeth Cymru ar y mater hwn a CJ i adlewyrchu'r pwynt a godwyd yng nghofnodion y cyfarfod diwethaf.

Eitem 3 Papur Diweddaru

Darparwyd trosolwg o'r Papur Diweddaru a oedd yn cynnwys rhai uchafbwyntiau allweddol. Canolbwyntiodd Fforwm Rheoli Dŵr Cymru ar y pwyntiau isod:

Diweddariad ynghylch Afon Gwy

Cafwyd trafodaeth eang ar Afon Gwy. Roedd gwaith yn mynd rhagddo i werthuso'r sefyllfa, gan gynnwys dehongli data a thystiolaeth ac edrych ar dueddiadau hirdymor. Yn gyffredinol, roedd yn ardal gymhleth, a byddai manylion pellach yn cael eu rhannu wrth iddynt ddod i law. Gwnaed sylw ynghylch datganiad cynharach i'r wasg gan CNC a oedd yn nodi bod ffosffadau yn dirywio yn y Gwy. Roedd hyn yn ddryslyd iawn ac yn ei gwneud yn anodd sefydlu beth a oedd yn digwydd.

CAM GWEITHREDU: MS i rannu cwmpas y gwaith

CAM GWEITHREDU: MS i gadarnhau'r mathau o ffosffadau a oedd wedi'u cynnwys yn y cwmpas

Diweddariad ynghylch plastigion a sbwriel morol

Cafwyd trafodaeth eang ynghylch effaith plastigion a'r dull gweithredu cyfredol o fynd i'r afael â'r mater hwn. Mynegwyd diddordeb o safbwynt ymchwil, gan gynnwys unrhyw adroddiadau ac asesiadau yn ymwneud â dyfroedd croyw, ynghyd â manylion ar safonau a fyddai'n cael eu defnyddio.

Roedd UKWIR wedi datblygu safon yr oedd Dŵr Cymru yn ei defnyddio yn ei ymchwil. Roedd rhywfaint o waith ymchwil a datblygu defnyddiol ar draul i deiars wedi cael ei wneud hefyd, a pha mor bwysig oedd y ffynhonnell hon. Ystyrid bod llwch a gronynnau teiars yn ffynonellau fflwcs a danamcangyfrifid ar y raddfa nano, ond prin oedd y dystiolaeth ynghylch a oedd hyn yn peri problemau ai peidio.

CAM GWEITHREDU: Byddai MC yn mynd â chwestiynau 'nôl at gyd-weithwyr yn CNC ynghylch: safonau

Cysylltiadau Fforwm Rheoli Tir Cymru ac is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru a Fforwm Pysgodfeydd Cymru

Rhoddyd diweddariad ar lafar gan Marc Williams (aelod arweinïol CNC ar Fforwm Rheoli Tir Cymru). Cynhaliwyd y cyfarfod diwethaf ar 9 Medi ac roedd wedi cynnwys diweddariad

ar Ffermio Cynaliadwy a'n Tir, y ffordd orau o rannu gwybodaeth, diweddariad ar SoNaRR, a'r ymgynghoriad ar sgrinio amonia. Cynhelid y cyfarfod nesaf ym mis Rhagfyr.

Roedd yr Is-grŵp ar Lygredd Amaethyddol wedi cael nifer o gyfarfodydd. Y prif ffocws oedd symud ymlaen gyda'r argymhellion blaenoriaethol a amlygwyd gan y grŵp ym mis Mehefin.

Ystyriwyd cysylltiadau ehangach Fforwm Rheoli Dŵr Cymru hefyd, megis y Fforwm Mynediad Cenedlaethol a'r Grŵp Morol, i sicrhau y gallai'r rhwydweithiau hyn fod yn effeithiol ledled yr amrywiol fforymau. Yn aml, roedd yr un materion yn codi, felly roedd yn bwysig cynnal cysylltiadau. Cafwyd awgrym y gallai fod yna gyfleoedd i ddod â'r grwpiau hyn ynghyd yn hytrach na chael trafodaethau ar wahân.

Gwnaed sylw ynghylch yr ymgynghoriad Aer Glân, a'n bod am integreiddio gwaith llygredd gronynnol, a phwysigrwydd cydweithio.

Eitem 4 Ystyriaeth o gemegion Parhaus, Biogynyddol a Gwenwynig (uPBTs) hollbresennol wrth gynllunio basnau afonydd

Cafwyd cyflwyniad gan Mark Charlesworth (CNC).

Pwyntiau trafod:

- A oedd hyn yn perthyn i'r term poblogaidd cyffredinol, "Cemegion byth a hefyd"? Roedd gan CNC raglen fonitro i nodi presenoldeb ystod eang o gemegion; roedd y canlyniadau'n dechrau ymddangos; diffinnid y rhai yr oedd CNC yn eu rheoleiddio gan yr UE. O ganlyniad i adael yr UE, efallai y byddai'n ofynnol i ni nodi cemegion ein hunain, ac felly roedd prosiect newydd CNC ar halogion ar waith i lywio ystyriaethau rheoleiddio yn y dyfodol.
- Sut yr oeddem yn cymharu â gwledydd eraill y "byd cyntaf"? Nid oedd tystiolaeth ar gyfer y gymhariaeth wrth law. Yn nhermau monitro bywyd yr uPBTs, a hynny ar sail mercwri, roedd yn debygol y byddai llai o'n cronfeydd dŵr yn methu, o ystyried yr hanes diwydiannol, mewn cymhariaeth â Lloegr. Nid oedd y ffordd yr oedd niferoedd [y cemegion] yn cael eu cyfrifo yn syml. Defnyddiwyd data gan drydydd partïon ar gyfer asesiadau risg.
- Roedd yna gefnogaeth i'r awgrym bod angen rheoli'r uPBTs yn y ffynhonnell, oherwydd gallai eu rheoli yn yr amgylchedd a'r costau fod yn anghymesur, neu gallai'r mesurau rheoli fod yn dechnegol anymarferol. Roedd yn amlwg bod ar CNC angen adnoddau digonol i fonitro, ond dylai hefyd argymhell mesurau rheoli y gellid eu gosod wedyn mewn deddfwriaeth Gymreig. Roedd egwyddor cyfrifoldeb cynhyrchwyr hefyd yn allweddol yma gan y dylai cynhyrchwyr ariannu'r gwaith o lanhau'r llygredd a achosid o ganlyniad i gynhyrchu, gwerthu a defnyddio eu cynnyrch. Ychwanegwyd sylw mewn perthynas â chynnwys yr egwyddorion hyn yn y Ddeddf yr Amgylchedd newydd.
- Mercwri – a oeddem wedi gwahardd mercwri? Cymerwyd camau sawl blwyddyn ynghynt i'w atal rhag mynd i mewn i'r System Trin Dŵr Gwastraff. A oeddem wedi gwahardd y defnydd o fercwri mewn amalgamau deintyddol? Gwnaed sylw bod y Senedd Ewropeaidd wedi cytuno ar fersiwn derfynol ei Rheoliadau Mercwri ar 14 Mawrth 2017. Y Rheoliad hwn oedd offeryn yr UE i gadarnhau Cytundeb Minamata

2013, a oedd yn rhagnodi gostyngiad graddol yn y defnydd o amalgam deintyddol am resymau amgylcheddol.

- Roedd y diwydiant dŵr wedi bod yn monitro nifer o'r cemegion hyn, ac yn parhau i wneud hynny trwy CIP (Rhaglen Cemegion yn yr Amgylchedd), a oedd yn monitro elfion yn y Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff. Roedd yr holl ddata hyn ar gael i reoleiddwyr, i'n helpu ni i gyd i ddeall yn lle y dylai ein blaenoriaethau fod, a hefyd pa gostau ariannol a charbon a fyddai ynghlwm pe byddem yn dewis darparu gwaith trin ychwanegol i leihau lefelau ymhellach.
- Mynegwyd yr egwyddor o 'un allan, pawb allan', a sut yr oedd yn cuddio cynnydd lle bu buddsoddiad a chynnydd i wella statws ecolegol. Roedd EurEau, sef corff masnachu y diwydiant dŵr, yn cael dadl â'r Comisiwn ynghylch un allan, pawb allan – gyda'r bwriad o beidio â'i ddisodli, ond yn hytrach ychwanegu ato fel y gallai gwledydd hefyd arddangos data a dadansoddiad i egluro'r cynnydd yr oeddem yn ei wneud. Roedd yr UE yn awyddus i beidio â diwygio'r ddeddfwriaeth ond yn hytrach ei haddasu i ddangos cynnydd, ac i gynorthwyo'r broses o'i rhoi ar waith yn lle llunio deddfwriaeth newydd. O ran deddfwriaeth, pan fyddem yn gwybod beth a fyddai'n digwydd ar ôl 31 Rhagfyr, roedd yna bosibilrwydd y byddai yna le i ddiwygio, ond roedd hynny'n ddibynnol ar y setliad, gan gynnwys y modd y byddem yn dilyn safonau amgylcheddol.
- Rhaid oedd cyflwyno data a thystiolaeth. Roedd CNC wedi gwneud ymdrech i greu ffeithlenni o'r cemegion a oedd mewn perygl, er mwyn cyfleu hyn i randdeiliaid. Croesewid unrhyw sylwadau ar y ffeithlenni a ddisbarthwyd gyda phapurau'r cyfarfod.
- Roedd dosbarthiad y Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd terfynol yn parhau ac roeddem yn anelu at eu llunio yn 2021.
- Roedd y clafr ymhlith defaid yn datblygu i fod yn broblem. A oedd yna unrhyw achosion o ddip defaid mewn afonydd?
Roedd rhai cemegion dip defaid yn cael eu canfod, felly byddai'n rhaid i CNC fynd yn ôl at y data. Roedd safon newydd wedi cael ei chyflwyno ar gyfer un o'r cemegion, felly byddai'n rhaid edrych ar y data ac adrodd yn ôl.

CAM GWEITHREDU: Byddai MC yn ystyried y pwyntiau trafod ac yn darparu diweddariad ar gyfer cyfarfod nesaf Fforwm Rheoli Dŵr Cymru

Eitem 5 Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd

Darparwyd diweddariad ynghylch y gwaith ar y Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd gan Rhian Thomas (CNC). Roedd gwybodaeth wedi dod i law gan Lywodraeth Cymru y gallai'r Canllawiau ar Faterion Gweinidogol a oedd yn ymwneud â Chynlluniau Rheoli Basnau Afonydd, ac a oedd yn nodi sut yr oeddem yn llunio'r cynlluniau, fod ar gael i Fforwm Rheoli Dŵr Cymru pe bai diddordeb gan yr aelodau. Ni fyddai hwn yn ymgynghoriad allanol ffurfiol, a byddai'n gyfyngedig i aelodau'r Fforwm.

Pwyntiau trafod:

- Roedd gosod amcanion amgen yn allweddol, ac a oedd hyn yn ddigon uchelgeisiol?
- O adio'r holl fesurau, a oedd gennym oddeutu 70% o gydymffurfedd?
- Roedd yn ymddangos yn annheg iawn methu'r Gyfarwydddeb oherwydd bod gennym amddiffynfeydd rhag llifogydd ar waith. Oni ddylid addasu dyfroedd o'r fath yn sylweddol?

- A oedd yna fatrics o ran nodi cyrff dŵr?
- Pryd yr oeddem yn meddwl y gallai'r 440 o gyrff dŵr gyrraedd da neu well? A oedd hynny y tu hwnt i 2039?
- A oeddem yn bychanu amcanion a dynodiadau amgen o ran y Dyfroedd a Addaswyd yn Sylweddol – a oeddem wedi cael y dynodiadau'n gywir, a fyddai'n caniatáu defnyddio mesurau amgen? Gallem adolygu rhwydwaith y Cyrff Dŵr ymhob cylch, felly byddai hynny'n rhan o'r ymgynghoriad drafft. Yn ôl y rheolau a osodwyd, roedd yna fân newidiadau ond roedd hyn yn effeithio ar rai nad oeddent yn Ddyfroedd a Addaswyd yn Sylweddol cyn hynny. Gallai corff dŵr fod yn ddarn hir o afon; dim ond rhan o hynny yw'r amddiffynfa rhag llifogydd.
- Roedd yn bwysig amlygu effaith buddsoddiad i ddatrys problemau, neu ni fyddai yna unrhyw ymdeimlad o werth mewn buddsoddi oni fyddem yn cipio buddion yn y data a ddefnyddid. Roedd rhai elfennau unigol yn offer cyfathrebu pwysig.
- Sut y gallem amlygu'r gwaith aruthrol a oedd ynghlwm wrth gynnal safonau? Roedd yna fesur o welliant, ond roedd angen i ni ddangos sut yr oeddem yn atal dirywiad hefyd.
- Ein herio ein hunain nad oeddem yn dehongli pethau'n rhy gaeth. Gyda'r ymadawiad o'r UE, roedd yna sgwrs i'w chael ynghylch dosbarthiadau cynharach i amlygu gwaith ac ymdrechion yn well.

CAM GWEITHREDU: CJ i ddosbarthu'r Canllawiau ar Faterion Gweinidogion sy'n ymwneud â Chynlluniau Rheoli Basnau Afonydd i aelodau Fforwm Rheoli Dŵr Cymru yn unig

CAM GWEITHREDU: Pawb – ailafael yn y pwyntiau trafod trwy'r ymgynghoriad ffurfiol a fyddai'n dechrau ar 22 Rhagfyr 2020 am gyfnod o chwe mis

Eitem 6 Diweddariad ynghylch Water Resources West – Marcus O’Kane (Cwmni Dŵr Hafren Dyfrdwy)

Cafwyd diweddariad gan Marcus O’Kane o Gwmni Dŵr Hafren Dyfrdwy ynghylch y cynnydd a'r amserlen lefel uchel parthed Water Resources West. Roedd y cwmni'n llunio cynllun adnoddau dŵr addasol hirdymor ac amlsector. Cynhelid lansiad ar 16 Hydref ac roedd y digwyddiad nesaf i randdeiliaid ar 13 Tachwedd. Trafodwyd Idealstream, a oedd yn fforwm i randdeiliaid rannu syniadau a thrafod dyfodol dŵr ledled ein rhanbarthau.

Eitem 7 Unrhyw fater arall

Tynnwyd sylw at y materion canlynol:

- Stormydd Dennis a Ciara – cynhaliwyd adolygiad o stormydd Chwefror 2020 a chyhoeddid yr adroddiad ddiwedd mis Hydref ar dudalen we CNC.
- Roedd yna grŵp Mynediad at Ddŵr yn bodoli a oedd yn un o is-grwpiau'r Fforwm Mynediad Cenedlaethol, a byddai canlyniadau trafodaethau'r is-grŵp a'r casgliadau ac argymhellion cysylltiedig yn cael eu cyhoeddi erbyn mis Mawrth 2021. Sefydlwyd yr is-grŵp hwn i roi blaenoriaeth i faterion dyfroedd mewndirol ac i drin mynediad at ddŵr ar wahân ac yn rhan o [Raglen Diwygio Mynediad Llywodraeth Cymru](#). Roedd yr aelodau'n ymgysylltu'n agored ac yn cydweithio i ddod o hyd i ateb pragmatig i Gymru.

- Mynegwyd mater yn ymwneud â chyfarfod diwethaf Datganiad Ardal y Gogledd-ddwyrain, sef nad oedd unrhyw ystyriaeth wedi'i roi i gael tenantiaid i gydymffurfio â'r gofynion newydd. Roedd yn rhaid cael gwell cyswllt neu ni fyddai unrhyw gynnydd yn cael ei wneud.

**Daeth y cyfarfod i ben am 13:00 a byddai'r cyfarfod nesaf ar
3 Mawrth 2021**